YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 10. HYDREF, 1924. PRIS, 3c.

.. CYNHWYSIAD. .

AR ADEN FFYDD.
ESTYN DY RAFFAU A GYR ADREF DY HOELION.
UNDODIAETH: OL-OLWG, &c.
AR GRWYDR.
PWYLLGOR YR YSGOL SUL.
LLWYBRAU'R WLAD.
EIN GWLAD A'I PHOBL BORE.
PRIODAS.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Newydd ddod allan o'r Wasg.

"Cerddi Newydd Crwys"

Llian 3/6. Amlen Bapur 2/6. Cludiad 3c.

Anfoner am Gopiau i
SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

—AIL GASGLIAD O—

EMYNAU A THONAU

. . AT WASANAETH . .

Cymanfa Gerddorol Undodaidd Ceredigion.

Pris 9c., Amlen Bapur. Gellir cael Copiau wedi eu rhwymo mewn Llian—*Cloth Binding, 3s. 6c.*

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

Cymdeithas ✦ Undodaidd ✦ Deheudir ✦ Cymru.

Llywydd—Y Parch. T. O. WILLIAMS, M.A., Llanbedr.

CYNHELIR

Cyfarfodydd Chwarterol

— YR HYDREF —

YNG NGHAPEL

CAERONEN. GER LLANBEDR

Ar HWYR MAWRTH a DYDD MERCHER, HYDREF 21 a 22,
— 1924. —

Trefn y Cyfarfodydd :—

Nos Fawrth am 6.30 : Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Dydd Mercher am 10 : *Disgwylir dau gynrychiolydd o bob Capel, ynghyd a'r Gweinidog, i fod yn bresennol, er ymdrin a chwestiynau pwysig ynglyn a'r enwad, ac fe ddarllenir papur gan Mr. Tom Davies, Llwynrhydowen, ar "Bynciau cymwys i'w trafod yn y Cyfarfod hwn."*

Dydd Mercher am 2 a 6 : Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Bydd Gweinidogion y cylch, ynghyd a'r Parchn. E. R. Dennis, D. G. Rees, a Dr. Griffiths, Aberystwyth, yn gwasanaethu.

— Estynir croeso gwresocaf i bawb. —

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1924. [CYF. XXIV. RHIF 10.

AR ADEN FFYDD.

PLANT HYDREF.

(I Blant Ysgol.)

FE blyg pob pren o dan ei ffrwyth ;
Pob gwelltyn aur a gryma
Ym mron hyd lawr o dan ei lwyth—
Fe ddaeth yr Hydref yma
Gan ddwyn i'r llysiau, hadau fil,
Sef plant i gadw'n fyw eu hil.

Fe lunia pob llysieuyn siwt
I'w blant,—un ddêl a chryno ;
Ac iddynt hefyd bydd yn giwt
Am chwilio lle, ac yno
Fe gais ryw fôdd i'w cludo'n chwim
Am rôdd neu daliad, neu am ddim.

Am hil y gwenith, ceir y fro
Yn unol am ofalu ;
Pob draenen fydd i'r 'deryn tô
Am gludo'i hâd yn talu ;
Fe fynn ysgallen gyfrwy'r gwynt
I'w phlant i farchog ar eu hynt.

I'w hâd, fe wêl y cyngaw siawns
A gefn yr ych i grwydro ;
Eithinen aur yng ngwres prynhawn
Sy'n chwalu'i chrud drwy ffrwydro ;
Bydd llysiau'r ddôl ar lif y nant
Am ddim yn achub lifft i'w plant.

Plant dôl a pherth mewn gwisgoedd cain
O wynn, a choch, a melyn !
Dwyn rhôdd, cyn gofyn help, bydd rhai'n
Cymodi â phob gelyn.
Rhyw deulu'n helpu 'u gilydd yw
Plant Hydref—dyna'r ffordd i fyw.

CLEDLYN.

"ESTYN DY RAFFAU A GYR ADREF DY HOELION."

(Parhad o rifyn Medi.)

YN wyneb haul godidog y gorffennol a hanes sy'n peri i bobun ymfalchio ynddo, ac yn wyneb y cyhuddiadau pendant fod y pulpud yn dirywio, ïe, a gwaeth na hynny, ei fod yn anonest i'r goleu ac ein bod yn byw ar gapital yr oes o'r blaen, y mae eisiau gwasgu adref apêl seml y testun—

"Estyn dy raffau a gyr adref dy hoelion."

Y mae yr Athro W. J. Gruffydd, yn y *Llenor*, yn rhoi lleferydd i deimlad gonest llawer o'n hieuenctid:—"Y mae llawer ohonom wedi profi dulliau'r athronwyr ac esboniadau'r gwyddonwyr a chredoau'r diwinyddion, ac y naill am nad ydym yn ddigon hyddysg ynddynt i'w deall neu am eu bod hwy yn ceisio esbonio yr hyn a welant drwy syniadau sydd y tu fewn i gyfundrefn rhy gyfyng; am y naill reswm neu'r llall, meddaf, yr ydym wedi methu cael dim boddlonrwydd ynddynt."

Nid yw'n wiw amau nad oes gwir yn ei osodiad. A y Parch. Dinsdale Young fel oracl gam ymhellach gan ddywedyd, "A great deal of the religious teaching today was Unitarian. That was not the way of Salvation taught by Wesley, Paul, and the Master" (*Daily News*, Gorff. 19eg, 1924).

Hwyrach y gŵyr o feddwl Wesley a meddwl Paul, ond cyn belled ag y mae y Meistr Mawr yn y cwestiwn, yr wyf yn wylaidd a gostyngedig yn awgrymu iddo beidio bod mor bendant, er ei fod hwyrach yn byw i fyny a geiriau'r emyn:—

"The Unitarian fiend expel,
And chase his doctrine back to hell."

Mor wahanol ydyw cyffes J. Middleton Murry, golygydd yr *Adelphi*:—"The Christ who is man demands infinitely more than Christ who is God," a hoffwn awgrymu lle y gwel ef wendid llawer cyfundrefn, "Christ became the God of a Church instead of the Example of Man."

Beth bynnag am hyn, y mae gennym destun diolch nad oes angen ini betruso. Gallwn estyn y rhaffau lle y mynnwn, heb ofni y daw gwyddor fel awel o wynt i ddryllio'r babell. Nid oes eisiau ini roi'n crefydd mewn *water-tight compartment* rhag ofn i'r goleu diweddaraf ei llychwino. Medrwn anwybyddu cynnyg gonest awdur Llyfr Genesis i esbonio'r Cread heb golli gafael ar Dduw, a chofier nad ydym nemor yn nes ymlaen. Ni wyddom ni heddyw ddim am fywyd na meddwl. Gwelwn fywyd yn mynd a gwelwn fywyd yn

dod, dyna'i gyd. Soniwn am *ether*; ond beth ydyw? Ni wyddom ond ei fod yn cylymu'r planedau'n un cyfundrefn ac yn dal pob *atom* yn ei le. Ys dywed Syr Oliver Lodge, "Matter is turning out to be one of the forms of energy, a newly discovered form, discovered largely through the genius of Einstein."

Gwelwch felly y cyfnewid sy'n ein byd ni, a phe darllenech lyfr megis "Atoms and Rays" (*Lodge*), ca'ech weled fod Gwyddor heddyw yn awgrymu gwyrthiau mwy na dim a berodd i'n teidiau amau. Meddyliwch am yr *atom* - y dim lleiaf o fater y gwyddid gynt am dano. Erbyn heddyw mor wahanol y'i darlunir: "An atom, like the solar system, consists mainly of empty space. An electrical particle discharged into an atom would be just as unlikely to hit one of the particles of which the atom is composed as a huge projectile would be to hit one of the planets or the sun."

Nid yw hynyna ond awgrym o'r wybodaeth newydd. Ni ryfedda neb pan ddywed Marconi y medrir gwneuthur y llais yn glywadwy dros yr holl fyd, gan droi yr hen fyd hwn yn rhyw fath ar *whispering gallery*. Eir yn lluoedd i Wembley heb gofio fod natur o'n hamgylch yn Wembley fwy. Gwylltwn o ddarllain am "The Death Ray" gan anwybyddu'r "Life Ray" sydd yn ein meddiant. "Myfi a ddeuthum fel y caent fywyd, a hwnnw yn fywyd helaeth." Ni buaswn yn pwysleisio fel hyn onibai fy mod yn credu fod y gwir gan Dr. Glover pan ddywedodd na fedrid pregethu Crist yn effeithiol o chysylltid Ef ym meddwl pobl feddylgar ag "antiquated scholarship" neu "discredited science."

Gynt yr oedd pob gwyddonwr yn peidio a bod yn grediniwr oherwydd gosod sedd awdurdod mewn pab, neu eglwys, neu lyfr anffaeledig. Erbyn heddyw, fel yr awgrymai y Parch. Dinsdale Young, ond gyda chasgliad gwahanol oherwydd fod llawer o'r addysg grefyddol yn Undodol, oherwydd fod sedd awdurdod ynom, y mae'r *physiologist*, fel Dr. Haldane ac eraill, yn awgrymu fod ffeithiau bywyd a meddwl yn arwain yn union at y meddwl o Dduw fel y *reality* penuaf.

Y mae eisiau i'r pulpud *estyn y rhaffau* os am gadw gafael ar feddwl mwyaf goleuedig y werin!

Nid yw Eglwys Dduw, hyd y gwelaf i, o ddifrif gyda chrefydd Mab y Saer. Awgrymai'r nofelydd enwog, H. G. Wells, yn ddiweddar, a ganlyn:—"I would suggest that 'Christianity' sell all that it hath and follow after Jesus of Nazareth, that it scrap its theologies and organisations, and, taking neither script nor purse, set out to find the lost Kingdom of God."

Darllenasoch adroddiadau'r Copec. Y maent yn dangos cyfle Eglwys Dduw ym mywyd cyffredin y werin, ond mor ychydig yw'r dylanwad. Yr ym rywsut wedi'n hoelio yn yr unman—*stranded!* Y mae hyn i'w ganfod hyd yn oed yn ein gwasanaethau. Y maent mor unffurf flwyddyn ar ol blwyddyn nes ein bod wedi blino arnynt. O am dipyn o gyfnewid!

Dywedai'r Deon Weldon :—" Year after year the Church has gone on with Matins and Evensong on every Sunday, a sermon at Matins and a sermon at Evensong, and both sermons often preached by the same Clergyman, until he has exhausted both himself and his congregation. The time is ripe for experiments in Divine worship."

Y mae eisiau ysbryd ieuanc arnom—ysbryd gwrthryfel i ddarnio'r plisg sy'n caledu am danom gan ladd yspryd y peth byw'n ein crefydd.

Gyda llaw, dengys ein gwleidyddiaeth *rym* ein crefydd. Na thybier fy mod yn edrych drwy lygaid plaid, ond pan mae cynnifer o weinidogion ac eglwysi yn ymwneuthur a gwleidyddiaeth, gallesid disgwyl iddi gael ei thrwytho ag ysbryd Mab y Saer. Cyn belled ag y mae Eglwysi'n gwlad ni'n y cwestiwn, nid oes allu ganddynt i atal " rhyfel " na chondemnio rhywbeth a fo'n difwyno bywyd y werin. Gelwir arnynt i fendithio bauer neu i gysuro llofrudd ar ei ffordd i'r crogbren, dyna'i gyd, a buasai hyn yn chwerthynllyd onibai ei fod *mor dragic*. Hyd y gwn i, ceidwad y carchar, ac nid Eglwysi yr Amerig, a roes gyfle i grefydd Iesu i bymtheg cant o wehilion cymdeithas yngharchar Sing Sing.

Pwy ddydd, darllenwn " Gyffes Ffydd," ond nid Cyffes Ffydd un Eglwys—nid oes digon o ysbryd Crist mewn llawer Eglwys i'w mabwysiadu'n gyhoeddus o leiaf. Cyffes Ffydd ydoedd a dynwyd allan gan gynhadledd o gynrychiolwyr o bymtheg gwlad, a rhof i chwi ychydig froddegau ohoni :—" Duw yw ein Tad, felly brodyr ydym ni oll. I ni mae Un Deyrnas ar y ddaear, a'i Deddf yw Cariad. Gwnawn adduned santaidd i beidio byth mwyach a chodi arfau yn erbyn ein gilydd. . . . . Hyrwyddwn chwyldroad cariad a chyfiawnder gydag arfau cariad a chyfiawnder. . . . . Nid oes ond un ysbryd digon cryf a digon pur i drawsnewid anrhefn i fywyd creadigol—ysbryd cariad y Tad Tragywyddol. Yn chwyldroad ysbryd y Crist yn erbyn ysbryd Mammon y mae iechydwriaeth y byd. Ynghanol anobaith dynion unwn mewn gweddi a gweithred. Deled dy Deyrnas yn awr, O Dad."

Tybed na fedr Eglwys Dduw mewn ysbryd ac mewn gweithgarwch estyn y rhaffau nes cael y Gyffes Ffydd hon yn *Gyffes Ffydd* dilynwyr Crist ymhob gwlad.

Rhagor nag yspryd ieuanc, y mae eisiau yspryd cenhadol ; neu, os y mynner, y mae yspryd ieuanc yn esgor ar ysbryd cenhadol—ysbryd brwdfrydig—*an enthusiastic missionary spirit*. Mewn geiriau ereill, " ymosod yw'r amddiffyniad goreu," ac oni bydd eglwys neu enwad a thipyn o'r yspryd ymosod, tipyn o'r ysbryd i estyn y rhaffau ynddo, y mae llaw farw wedi dechreu gafael ynddo ; ac wrth fynd heibio, yr wyf am awgrymu'n garedig mai tynnu'r cynfas i mewn yr ydym er ys tro bellach, ac y mae eisiau i ni fel enwad " estyn y rhaffau," gan ddangos nad oes arnom gywilydd o'n crefydd.

Y mae ail ran yr apêl yn llawn mor bwysig, wrth estyn y rhaffau, y mae eisiau gyrru adref yr hoelion—y *tent pegs*.

Y mae'r ddameg yn eithaf clir—po hiraf y rhaffau, dyfnaf i gyd rhaid gyrru'r hoelion. Mewn ystyr a heb fychanu dim o'r teidiau—bywyd bychan—pabell fach oedd pabell eu bywyd, ac nid oedd y rhaffau'n hir—nid oedd eu bywyd a chymaint o gwmpas iddo, ond credaf fod eu hegwyddorion wedi'u gyrru adref, a dyna'n perigl ni. Yr ydych wedi gweld ambell babell Eisteddfod a godwyd ar frys—y mae'r gwynt yn dod, a gwelwch adain ohoni yn fflappio'n y gwynt. Gyfeillion, pan sonir am yr oes bresennol fel oes fâs - fel *puffed pastry*, chwedl un, nid yw ddim amgen nag awgrym fod cortynau'r babell wedi'u hestyn heb yrru adref y *tent pegs*. Ambell dro, yr ydych yn synnu y medr dyn mawr, ïe, dyn duwiol os mynner, fod mor fach. Estyn gormod ar y rhaffau a wnaeth, gan anghofio gyrru adref yr egwyddorion.

Sylwch ar y goeden yna. Fel y mae'n bwrw allan gangenau, y mae'n gwreiddio'n ddyfnach ar yr un pryd.

Neu meddyliwch am goedwr tan y ddaear; po letaf yr hewl, mwyaf i gyd o waith coedo sydd. Felly mewn bywyd; fel y mae bywyd yn ymeangu, mwyaf i gyd sydd o eisiau'i bropo—*spiritual underpinning*, chwedl un ysgrifennydd.

Ofnaf ein bod ni'n tueddu i edrych gyda dirmyg ar ein teidiau gynt—pobl yr un llyfr oeddent, ond o leiaf yr oeddent, yn eu ffordd eu hunain, yn ceisio'i ddeall a'i fyw. Erbyn heddyw, nid ydym ni'n credu dim yn arbennig, ac ni fedrwn roddi rheswm am y ffydd y sydd ynom. A ydych yn fodlon ar y cynnydd? Ai nid estyn y rhaffau a wnaethom heb yrru adref yr egwyddorion?

Gyfeillion, y mae'n dod i hyn—A ydym yn credu yn Nuw ac mewn dyn? A ydym yn barod i roi *free play* i Efengyl syml Iesu?

Na sonier wrthyf am shiboleth un enwad. Yr wyf yn barod i brofi ein henwad ni, fel pob enwad, with ganon Sant Francis:—"We know as much as we do." "Time will show whether our religion built up character, kindled enthusiasm, quickened responsibility, strengthened the muscles and sinews of character."

A'm gweddi yw ar i Eglwys Dduw estyn ei rhaffau a gyrru adref yr hoelion fel ag i gynnwys canlynwyr Iesu a gwyr Duw ymhob gwlad. Yng ngeiriau Channing:—"Into this Church all who partake of the spirit of Christ are admitted, and no man can be excluded from it but by himself, by the death of goodness in his own heart."

USTADYN! onid oes Duwdod—yn llond
Pob lle yn dy wyddfod;
A difeth hyglyw dafod
O dy fewn yn dweyd ei fod?

ALAFON (1847—1916).

UNDODIAETH: OL-OLWG, AMGYLCH-OLWG, A BLAEN-OLWG.

Cydnabyddwn ein hunain yn Undodiaid, ac yn Undodiaid Cristionogol. Wrth gyfenwi ein hunain yn Undodiaid, golygwn y daliwn fath neilltuol ar syniadau ar bynciau bywyd a thynged dyn a ddisgrifir yn ore gan y gair Undodiaeth. Ac wrth gyfenwi ein hunain yn Undodiaid Cristionogol, golygwn y credwn fod y syniadau hyn yn cydweddu ag eiddo Iesu Grist. Fel Undodiaid Cristionogol, perthynwn i fudiad a estynna'n ol yn un llinyn di-dor hyd at y Pen Athraw ei hun. Nid with yr enw Undodiaeth y gelwir y mudiad bob amser; yn wir, enw cymharol ddiweddar yw hwn. Ariaeth, Sosiniaeth, Aminiaeth, Undodiaeth: enwau ar yr un mudiad yw'r rhai hyn i gyd. Diddorol iawn yw taflu o honom olwg yn ol dros y llwybr hyd yr hwn y mae'r mudiad wedi symud o gam i gam hyd ei safle presennol—llwybr garw iawn yn fynych.

(A) Ol-Olwg.

Y mae yn agos i ddwy fil o flynyddoedd er pan fu Iesu ar y ddaear. O'i hanes nid oes gennym lawer iawn — dim ond megis cipdrem roddir inni arno; cipdrem ddigon clir, fodd bynnag, i'n galluogi i ffurfio syniad gweddol benodol am dano—pa fath ar berson ydoedd. Deuwn agosaf ato yn y tair Efengyl gyntaf; yn y tair hyn y cawn y portread symlaf a chywiraf o hono. Sut, ynte, y portreadir ef yn y tair hyn? Fel dyn; eithr fel dyn a wisgwyd â galluoedd eithriadol, ac a ddoniwyd â mewn-weledigaeth eglurach nag eiddo'r cyffredin o ddynion i gyfrinion perthynas yr Enaid Dwyfol a'r enaid dynol – Duw a dyn. Dyna'r gole, yn ddiamheuol, i'm tyb i, yr edrychid arno gan ei ddisgyblion cyntaf.

Nid hir y bu, fodd bynnag, cyn y dechreuwyd yr oruchwyliaeth o ddyrchafu Iesu i binacl uwch na'r dynol—goruchwyliaeth oedd i derfynu yn y rhoddi iddo safle ogyfuwch â Duw. Goruchwyliaeth araf iawn fu hon — parhaodd amryw ganrifoedd.

Gwelwn yr arwyddion cyntaf o honi yn llythyrau Paul. Palla gofod yn awr inni aros gyda'r cwestiwn —beth, yn gywir, oedd syniad Paul am Iesu? Digon i ateb fy amcan presennol yw sylwi nad syniad y tair Efengyl gyntaf yw syniad Paul.

Yna, fe ddeuwn at y bedwaredd Efengyl; yma gwelwn Iesu wedi'i ddyrchafu ris yn uwch eto. Perthyn y bedwaredd Efengyl, yn dra thebygol, i'r ail ganrif; ni ellir dyweyd i ba adeg o honi. Fe gawn nodwedd arbennig y bedwaredd Efengyl yn adnodau cyntaf y bennod gyntaf — adnodau'r "gair," fel eu gelwir. Yr oedd "gair" Duw wedi ymgnawdoli yn Iesu; ac felly wedi trigo, am ennyd, ymhlith dynion. Syniad arbennig y bedwaredd Efengyl yw hwn—nis ceir yn un o lyfrau eraill y Testament Newydd; fe wna ei hun yn amlwg o'i dechreu i'w diwedd, ac fe ddyry ei liw ar bopeth a ddywedwyd ac a wnaethpwyd gan Iesu. Syniad Groegaidd oedd hwn, o darddiad, hollol ddiberthynas â Christionogaeth yn ei gwedd ddechreuol, fel y daeth o enau Iesu; ond a ddygwyd i mewn i Gristionogaeth gan awdur y bedwaredd Efengyl.

O hyn allan, am y tair canrif ddilynol, cwestiwn pwysig y byd Cristionogol fu — beth debygwch chwi am Grist? Hanes diddorol iawn, ond hanes poenus yn fynych, lawer o hono, yw hanes y dadleuon parthed y cwestiwn hwn a fu'n blino'r Eglwys ieuanc yn ystod canrifoedd cyntaf ei gyrfa. Ac yn

hanes y dadleuon hyn, fe saif enwau dau ddyn allan yn amlwg iawn, sef eiddo Arius ac Athanasius. Ganwyd Arius oddeutu canol y drydedd ganrif — dyweder, tua 250; ac Athanasius yn 296; o'r ddau, felly, Arius oedd yr henaf. Bu Arius farw yn 336, ac Athanasius yn 373.

Brwd iawn fu'r ddadl rhyngddynt hwy ill dau a'u pleidwyr; eithr o ddarllen yr hanes fe'n synnir ni gan yr "hollti blew diwinyddol" a nodweddai'r ymdrafodaeth rhyngddynt. Ynghwrs y frwydr, oleddai'r fuddugoliaeth, weithiau, yn ffafr yr Ariaid, ac weithiau yn ffafr yr Athanasiaid. Parhaodd y sefyllfa ansicr hon hyd gynhadledd Caercystenyn, yn 381, pryd y gorchfygwyd yr Ariaid, ac y buddugoliaethodd yr Athanasiaid. Bu hyn yn achlysur i ddechreu erledigaeth lem o'r Ariaid; a thua diwedd y bedwaredd ganrif diddymwyd Ariaeth (belled ag y gellid ei diddymu) trwy'r oll o'r Ymherodraeth Rufeinig. Eithr tu allan i'r Ymherodraeth Rufeinig, yng ngwledydd gogledd Ewrop, fe blagurodd am oddeutu dwy ganrif ymhellach.

Er na lwyddwyd i'w ddiddymu'n llwyr, eto, yn y cudd y bu Ariaeth am y mil blynyddoedd nesaf, hyd wawriad y Diwygiad Protestanaidd, pan ddygwyd y Beibl, trwy gyfieithiadau o hono, tu fewn i gyrraedd y lluaws, ac y dechreuodd y bobl ei ddarllen. Bu hyn yn achlysur i adfywio'r mudiad Ariaidd; ac yn yr adfywiad, bu raid i lawer oddef erledigaeth lem, greulon, hyd yn oed i roddi eu bywyd dros eu ffydd. O'r lluaws a osodwyd i farwolaeth oblegid eu proffes o Ariaith neu Undodiaeth, y mwyaf adnabyddus i ni yw Serfed, a losgwyd gerllaw dinas Geneva, yn yr Yswistir, yn 1533; ac am ei ferthyrdod ef perthyn y cyfrifoldeb mwyaf i John Calfin—ysmotyn hagr iawn ar gymeriad arddercho g. Y mae gennym enwau llu eraill a roddodd eu bywyd dros eu syniadau Ariaidd neu Undodaidd yng ngwahanol wledydd Ewrop. Y mae eu nifer yn rhy luosog i gyfeirio atynt yn un ac un; eithr fe wnaf un eithriad. Yn y flwyddyn 1539, yn ninas Cracow, llosgwyd benyw, o'r enw Catherine Vogel, yn 80 oed, am ei phroffes o Undodiaeth. Dywedir iddi, pan ynghanol y fflamiau, roddi datganiad cyhoeddus o'i ffydd yn y ffurf a ganlyn: "Credaf ym modolaeth Un Duw, a greodd bopeth gweledig ac anweledig, [yr hwn] nas gall y meddwl dynol ei amgyffred." Cyffes nodedig yw hon, ar gyfrif y ffaith mai benyw, 80 oed, yn arteithiau tân, roddodd fynegiad iddi.

Y mae enwau'r ddau Sosinus—Laelius a Faustus—ewythr a nai—yn adnabyddus inni. Llafuriodd y ddau dros eu ffydd yn wyneb erledigaeth lem, yn enwedig yr olaf o'r ddau—Faustus. A thra'n son am y ddau Sosinus, fe allaf sylwi, gyda llaw, na fu dau gymeriad Cristionogol mwy disglair erioed yn rhodio daear Ewrop. A dyma beth arall am Sosinus gwerth sylwi arno: dywed un awdur Saesneg enwog mai dim ond tri dyn, yn yr oll o Ewrop, yn yr 16eg ganrif, oedd yn deall yr egwyddor o ryddid barn, ac yn arfer goddefiant mewn barn; ac un o'r tri oedd Sosinus. Y mae'n werth inni gofio hyn, pan y'n gelwir ar ei enw gan ddynion anwybodus a rhagfarnllyd, gan dybied fod hynny'n sarhad arnom. Yn sicr, nid dyn i gywilyddio o'i blegid oedd Sosinus. Nid syniadau Sosinus yw'm syniadau i, ond ymfalchïaf yn y fraint o gael rhodio'n ol ei draed, gan nad pa mor annheilwng wyf o hono.

Ond i ddychwelyd at y mater mewn llaw: eithaf gwir ydyw, ond i chwi losgi un dyn am ei syniadau, y cyfyd lluaws, megis o'i lwch, i broffesu ac i bleidio'r un syniadau. Dyna fel y bu yn achos y rhai a losgwyd neu a laddwyd neu a erlidiwyd yn yr adeg gynhyrfus y cyfeiriwyd ati: o'r adeg y dechreuwyd llosgi a lladd ac erlid pobl ar gyfrif eu proffes o Ariaeth neu Undodiaeth, yn y 15fed ganrif, ni fu prinder ar genhadon a ddygodd dystiol-

aeth dros y ffydd erlidiedig.

Lledodd y mudiad yn araf, a daeth i Brydain, ac o Brydain aeth i'r America. Y mae hanes dechreu a chynnydd Undodiaeth yn y wlad hon ac yn yr America yn hanes hir, i'r un, ac yn hanes diddorol neilltuol. Eithr rhaid ymatal rhag myn'd i mewn i'r maes hwn. Rhaid ymfoddloni ar un sylw'n unig — i'r perwyl a ganlyn: er yr adeg y diangodd niferoedd o'r cyfandir yn yr 16eg ganrif oblegid yr erledigaeth a ffynnai yno, y mae syniadau Ariaidd ac Undodaidd wedi ennill tir yn y wlad hon—yn araf, mae'n wir, ond i fesur cynhyddol o ganrif i ganrif.

Anghyflawn iawn yw'r amlinelliad hwn o hanes y mudiad Undodaidd, ond gobeithiaf ei fod yn ddigon cyflawn i wneud yn amlwg inni y fath draddodiadau godidog a berthyn iddo.

(*I'w barhau*)

AR GRWYDR.

Elfen gref iawn yn y natur ddynol yw'r elfen grwydrol—y *wander-lust*, fel y'i gelwir gan yr Almaenwr; yn Gymraeg, yr ysfa grwydrol.

Eang iawn yw'r Byd,

ac amrywiol iawn ei arwynebedd a'i olygfeydd. A dyry myn'd i bellterau daear, i'w gwel'd, i'r sawl a fedd y moddion angenrheidiol, rhyw bleser rhyfeddol iawn. Anturia rhai i gryn dipyn o berigl er bodloni'r ysfa i ymweld ag anghysbell-leoedd y ddaear, megis y cwmni a fu'n ddiweddar yn ymgeisio ag esgyn i gopa'r Everest, neu'r cwmni sydd, adeg ysgrifennu'r llinellau hyn, ar daith mewn modur i'r India. Nid wyf yn hollol sydd o'r duedd hon fy hun. Ni ddyry dim fwy o bleser imi na mynd allan am ddiwrnod neu ddau o amgylchoedd arferol fy mywyd i amgylchoedd newydd—i ymweld â chymydogaethau nas gwelais o'r blaen, neu ag olion hen adeiladau y clywais am danynt, neu â rhyw fathau eraill ar ryfeddodau, megis gweithiau celfyddyd yn y ffurf o ddarluniau neu gerfluniau neu gof-adeiladau henafol ac enwog. Dim ond un rhwystr a'm ceidw rhag rhoddi mwy o raff nag a roddaf i'r duedd grwydrol ynof. Ychydig wythnosau'n ol,

Cychwynais ar Daith Diwrnod.

Ni waith o ba le y cychwynais—digon imi ddisgyn o'r gerbydres yng ngorsaf y Trawscoed, yn nyffryn yr Ystwyth. Yn union cyfeiriasom—fy nghydymaith a minnau—ein camrau o'r orsaf tua'r ffordd fawr, gyda'r bwriad o ddilyn yr afon yn ei gwrthol trwy'r dyffryn, heibio i'r Hafod-Uchtryd, belled a Phont ar Fynach, neu Bont y Gwr Drwg fel y'i hadnabyddir yn gyffredin Yr oedd ein disgwyliadau'n fawr, oblegid bu aml i grwydrad o'n blaen ni yn teithio hyd yr un ffordd ag y bwriadem ni fynd, a bu rhai o honynt garediced a rhoi ar bapur yr argraff a adawyd arnynt gan y dyffryn a'i olygfeydd. Fel yr elem ymlaen o gam i gam, delai i'n golwg olygfa ramantus ar ol golygfa ramantus, a berai imi ryfeddu ac edmygu a gofyn cwestiynau. Pa fath ar gwestiynau awgrymid imi? Dyma rai: pa nifer o gannoedd o filoedd o flynyddoedd a gymrodd i natur i ymwisgo yn ei ffurfiau anwastad presennol? A fu adeg pan oedd y ddaear yn wastad-lyfn? Os

do, beth fu'r achos—achosion, yn hytrach—iddi ymffurfio'n fryniau a dyffrynoedd? Swydd y daearegwr yw ateb y fath ar ofyniadau a hyn; a chan nad wyf fawr o ddaearegwr, ni wnaf ymgais i'w hateb. O'm deutu yr oedd bryniau uchel, a godai o'r dyffryn ymron yn unionsyth am—wel, mewn rhai mannau, am gannoedd o droedfeddi. Ac yna, o droi'm golwg yng nghyfeiriad yr afon islaw, gwelwn fel y rhuthrai ei dyfroedd drwy welyau cul rhwng creigiau serth, gan beri imi arswyd o sylwi ar yr olygfa. A delai i'm meddwl eilwaith y fath ar gwestiynau ag a enwyd eisioes, megis faint o amser gymrodd i'r afon dorri iddi ei hun lwybr rhwng y creigiau hyn? Bob yn dipyn daethom i olwg

Palasty'r Hafod.

Saif ar lecyn gwastad, ar lan yr Ystwyth, adeilad anferth a phrydferth. O'i gylch y mae dolydd eang, ffrwythlon, a gwisgir y bryniau gan goedydd o dyfiant amryw genhedlaethau. O sylwi ar yr adeilad, fe'm cludid yn ol ar aden dychymyg dros ei hanes rhamantus, a meddyliwn am y rhan bwysig a lanwyd gan y cenhedlaethau a fu'n trigo ynddo ym mywyd y wlad cylchynol. Bu Iolo Morganwg ar ymweliad â'r lle droion, ac yn ayos wythnosau, i gopïo hen ysgrif-lyfrau a gedwid yn y llyfrgell werthfawr a gasglwyd gan y perchennog, Thomas Johnes (1748—1816), yr hon, ynghyd â'r palasty, a losgwyd yn ulw yn 1807, er colled na ellir ei brisio. Dyna pryd yr adeiladwyd y palasty presennol. Brysiwyd ymlaen tua'r Eglwys—un o'r ddau brif gyrchfan ein taith—i weld y gerflun goffa o farmor gwyn, un o orchestweithiau celfyddydol pennaf y deyrnas, gan y cerflunydd enwog, Chantrey. I'r Thomas Johnes a enwyd uchod a'i briod yr oedd un ferch, a fu farw'n dra disymwth yn 1811, er trallod chwerw i'w rhieni. Gorwedd y cerflun o'r ferch diancedig ar esmwythfainc; y tu ol iddi saif cerflun o'i thad gyda'i law dan ei phen; yn eistedd yn ei hymyl y mae cerflun o'r fam; gafaela ag un llaw yn llaw ei merch, a chuddia ei hwyneb ei hun â'r llaw arall; a dwg y ddau—y tad a'r fam—arwyddion o dristwch torcalonnus. Y mae'r cwbl wedi'i gerfio o un darnyn o farmor. Ni welais i erioed na darlun na cherflun mwy bywydaidd. Nid rhyfedd i awdurdodau'r Amgueddfa Brydeinig yn Llundain gynnyg i awdurdodau'r Eglwys £80,000 am dano. Da y gwnaeth yr olaf wrthod ei werthu. Telir ymweliad â'r Eglwys gan filoedd o bob parth o'r deyrnas i'r unig ddiben o weld y cerflun godidog. Ar ol aros ennyd yn yr Eglwys, troisom ein hwynebau tua Phont y Gwr Drwg.

Pam Pont y Gwr Drwg?

I'r rhan fwyaf o'n darllenwyr, y mae'r stori, yn ddiameu, yn adnabyddus. Ymhell iawn yn ol, yr oedd gan hen wraig a drigai yn y gymdogaeth fuwch; un dydd aeth y fuwch, rhywsut, dros yr afon i'r ochr arall, a bu'r hen wraig, am beth amser, mewn dygn benbleth sut i gael y fuwch yn ol. Daeth y "Gwr Drwg" ati, ac addawodd godi pont, ond iddo gael y cyntaf elai drosti. Cydsyniodd yr hen wraig â'r telerau, a chodwyd y bont. Taflodd yr hen wraig grwstyn o fara i'r ochr arall; aeth ei chi drosodd i'w gyrchu. Gorchfygwyd y "Gwr Drwg," a dywedir na welwyd mo hono yn y gymdogaeth byth ar ol hynny. Ddedwydd gymdogaeth! Dyna'r stori. Af innau ymlaen â'm stori innau. Dywedodd y diweddar Barch. Mr. Haweis, pan ar un o'i ymweliadau â'r America, bod ganddo ddau amcan mewn golwg—clywed Beecher yn pregethu, a

Gweld y Niagara.

Ni ddeil cwymp y Fynach ei gymharu ag eiddo'r Niagara; eithr o sylwi ar y cyntaf daeth dywediad Mr. Haweis i'm cof, ac ni ryfeddwn iddo fynd yr holl ffordd i weld

cwymp y Niagara. Rhyfeddol yw cwymp y Fynach, a rhaid bod cwymp yr afon Americanaidd yn arswydus i sylwi arno. Troisom ein cefn ar Bont y Gwr Drwg, a'n hwyneb at Aberystwyth. Ni theimlais fy hun mewn perigl hyd y dechreuwyd y rhan hon o'n taith. Yn ystod yr awr y buom yn y gerbydres, teimlwn ias ar ol ias o ofn yn treiddio drwy'm cyfansoddiad, ac fe'm tueddid i ofyn imi fy hun—a oeddwn yn barod i ymddangos ger bron fy Marnwr? Yn ambell i fan elai'r gerbydres hyd ei llwybr cul ar ymyl llethr serth—mor serth fel, pe ddigwyddai damwain, ni ellid osgoi dinystr, gan na byddai modd dod i arosfa cyn cyrraedd y gwaelod, amryw ugeinian o droedfeddi is-law. Da iawn oedd gennyf weld cyrraedd y gwastadedd, a bod yn sicr ein bod allan o berigl. A da-ed a hynny oedd gweld cyrraedd ein cartrefi tua hanner nos, yn flin, yn lluddedig, ond gyda'r teimlad ein bod wedi mynd trwy ddiwrnod da o waith, a'r ysfa grwydrol wedi ei diwallu am dymor.

CRWYDRYN.

PWYLLGOR YR YSGOL SUL.

Cyfarfu'r Pwyllgor uchod yng Nghapelybryn, Awst 20fed, pryd y pasiwyd y penderfyniadau a ganlyn :—

1. Maes Llafur 1924—25 :

   Safon I. (*a*) Darllen a Sillebu geiriau syml.
   (*b*) Gweddi'r Arglwydd.

   Safon II. (*a*) Ffeithiau syml hanes Paul, hyd ddiwedd y daith genhadol gyntaf (Actau xiv. 28).
   (*b*) Gweddi'r Arglwydd.

   Safon III. (*a*) Hanes Paul hyd ddiwedd y daith genhadol gyntaf (Actau xiv. 28).

   Safon IV. (*a*) Hanes Paul hyd ddiwedd y daith genhadol gyntaf (Actau xiv. 28).
   (*b*) Deg Pennod gyntaf o'r "Hanner Can' Pwynt."

2. Penodwyd y Parch. H. H. C. Jones, Caerdydd, yn arholwr cyffredinol.

3. Dydd yr Arholiad : y Sadwrn olaf yn Mawrth, 1925.

4. Awgrymwyd Llyfr yr Actau fel "Maes Llafur" i'r Ysgolion Sul ; i ddechreu y Sul cyntaf o Hydref.

5 Awgrymwyd, hefyd, y dymunoldeb o ddewis penodau o'r Actau ar gyfer y Cymanfaoedd Ysgolion (1925).

Nodiadau —(1) Yn Safon I., gall yr Ysgolion ddefnyddio unrhyw lyfr a ddewisont i ddysgu darllen a sillebu. (2) Bydd yr Arholiad yn un ysgrifenedig yn Safonau II.—IV.

D. EVANS, *Ysgrifennydd.*

LLWYBRAU'R WLAD.

[Gan ANTHROPOS.]

I.

Anodd dygymmod a'r "pedwar pared"—fel y geilw rhai pobl eu tai ar drothwy Mai. Ar adeg o'r fath, anodd ydyw dygymmod a pharwyddydd o gwbl. Hudir ni i'r awyr agored, ac i lwybrau'r wlad. Na thybied y darllenydd ein bod yn abl i droi y "gobaith yn fwynhad" bob dydd. Na, gwyddom am alwadau nas gellir eu hanwybyddu, a dyledswyddau nas gellir eu hesgeuluso. Ond tra yn mynd trwy y dyddgylch gosodedig, yr ydym yn clywed y llais anwel yn galw. Daw atom ar aden yr awel a chwyth i fewn trwy'r ffenestr. Daw yn gryfach yng nghân aderyn ar y goeden yn yr ardd. Rhaid prysuro ymlaen, a disgwyl awr gollyngdod llafur. Y mae'r hudoliaeth yn rhy gryf, ac nis gallwn, fel rhai brodyr ar faes arall, ddim gwrthod yr "alwad."

II.

Tebyg nas gall y sawl a fagwyd yng nghanol gwlad ymddihatru oddi wrth ddylanwadau cynnar oes. Er byw mewn tref nid ydym yn dod yn rhan ohoni, ac ni ddaw hithau yn rhan ohonom ninnau. Rhyw gyntedd allanol ydyw, ac nid cysegr sancteiddiolaf. Gwyddom fod y sawl a fagwyd yn y dref, neu'r ddinas, yn meddu profiad arall a gwahanol. Un felly oedd Charles Lamb. Heolydd Llundain, a byw yng nghanol y torfeydd, oedd ei wynfyd ef. Aeth ar ymweliad unwaith yn ei oes, â Gwlad y Llynnau, lle y cartrefai Wordsworth, Coleridge a Southey. Ond nis gallai weled dim yn y golygfeydd rhamantus, ac nid oedd mynyddoedd, llynnoedd a choedwigoedd, yn apelio ato o gwbl. Hiraethai am y strydoedd a'r masnachdai yn y brifddinas. Nid rhyfedd fod "arogl y lamp" ar ei gynyrchion llenyddol. Gwell ganddo oleuadau Llundain na goleuni'r wawr ar Wlad y Llynnau. "Let us take a walk down Fleet Street," ebai Doctor Johnson. Yno yr oedd ei nefoedd yntau, nid yn y wlad. Bu yn ymweled a rhannau o Gymru, a chôf gennym weled y *Grecian Urn* mewn congl cae ar gyffiniau Dinbych, yn coffa'r ffaith fod Doctor Johnson wedi bod yn y fro honno. Ysgrifennodd ddydd-lyfr o droion y daith, ond ychydig am y golygfeydd. Dyn y ddinas oedd Johnson, a gwell ganddo ymgom yng ngwesty'r "Mitre" na myn'd i yfed awelon y wlad, neu gerdded glannau'r Dafwys i Richmond. Gwyddai Thomson, awdur y gerdd ddi-odl i'r "Tymhorau," am gyfaredd y rhanbarth honno, a cheir tabled mewn parc coediog a thawel yn tystio mai dyna un o hoff rodfeydd y bardd. Ac os nad ydyw y peth yn rhyfyg, gallwn gyffesu mai beirdd yr awyr agored sydd wedi bod yn gymdeithion i ni ar hyd y blynyddau, ac yn eu plith, yr oedd James Thomson. Gallwn adgofio'r oriau gwynion pan ddarllenem y *Seasons* am y tro cyntaf ar lannau'r Ddyfrdwy. Ac wedi hynny daeth William Cowper, ac eraill o "feirdd natur," fel y gelwir hwy. Yn ddiweddarach, y daethom i wybod am Wordsworth, ac er ei fod ef yn fwy awenydd na'r lleill, yr ydym yn cadw congl gynhes i weithiau Thomson a Cowper o hynny hyd y dydd hwn. Unwaith y daw'r per-lewyg ym mywyd dyn, ond y mae mis Mai yn agor drysau adgof, ac yn ein hudo i'r hen lwybrau.

III.

Y mae gan bob bardd a llenor Cymreig ei afon neu ei ffrwd. Afon Aled oedd gan Hiraethog, ac afon Alun oedd gan John Blackwell. Ac er crwydro yn mhell o swn yr afon, eto hi sydd yn teyrnasu yn y galon a'r cô. "Mi biau'r afon Alwen," ebai R. H. Jones. Popeth yn dda. Ni raid ymgyfreithio gyda phethau o'r fath. Gallwn feddiannu golygfeydd heb i hynny dolli dim ar eiddo neb arall. Ond y mae afon mebyd yn rhedeg o hyd trwy feusydd ein myfyrdodau. Dichon y daw rhyw afon arall yn eiddo i ni trwy "fabwysiad." Cerddwn ei glannau, a gwyddom am y llwybrau encil lle y blodeua'r drain gwynion, ac y plyg yr helyg uwch ben "dwr gloewlas araf." Sonia llyfr Job am "arogl dyfroedd," ac y mae hwnnw yn beraidd ac adfywiol—arogl hyfryd a glân. Y mae pobl glan y môr yn hoffi arogl y "gwymon," a dichon ei fod yn eithaf iach i'r sawl a gynnefinwyd ag ef. Ond rhoddwch i ni arogl dyfroedd yr afon, a ffrwd y mynydd ar ei thaith. Dyna'r neithdar a'r gwin, ac y mae yfed o honno yn adnewyddu ein natur.

Gwyddom am flas y wermod, ond y mae awr ar lwybrau'r wlad yn peri i ni anghofio bodolaeth y "wermod lwyd" mewn byd ac eglwys. Cawn arogli briallu, ac yfed o gwpanau'r mefus a'r mêl. Ailwyir bord ger ein bron, a dychwelir ni o dir y caethiwed.

IV.

Ac wedi dod yn ol, cawn flas newydd ar yr hen lyfrau oedd yn disgwyl am danom. Yr oedd eu hawduron yn gwybod am gyfrinion anian, a'i swyn syml, yn y gawod, yr heulwen, a'r gwlith. Ond rhaid mynd i'r mannau lle y cawsant hwy eu gweledigaeth cyn y gellir mwynhau eu disgrifiadau. Ambell i dro, yr ydys yn blino ar y llyfr, ac yn methu mynd i mewn i'w gyfrinach. Nid ydym yn medru gafael ynddo, ac nid ydyw y llyfr yn medru gafael ynom ninnau. Ar bwy y mae'r bai? Digon posibl mai ynom ni ein hunain. Yr ydym wedi mynd allan o "diwn," neu wedi blino. Gadewch y llyfr ar y bwrdd. Ewch allan i'r wlad. Gadewch i'r pethau a welwch, ac a glywoch, osod eu hargraff ar eich meddwl. Peidiwch a chludo beichiau'r dydd ar eich ysgwyddau. Credwch y gall y byd fynd yn ei flaen hebddoch am ychydig amser, a deud y lleiaf. Peidiwch a mynd a'r "Comisiwn," neu'r "Pwyllgor" gyda chwi i lwybrau'r wlad. Edrychwch ar y goeden yn ymddadblygu yn ddistaw ac urddasol. Gwrandewch ar yr ehedydd yn y glesni, a'i gân yn dirgrynnu ar yr awel, wedi anghofio'r gwaelodion yn llwyr. "*Scorner of the ground*," fel y dywed Shelley. Dyna ysbrydoliaeth yn ei uchafnod. Nid ydyw manion bywyd yn cyffwrdd ei fyd :—

Canu mae; a'r byd a glyw
Ei alaw lon o uchel le,
Yn nes at ddydd, yn nes at Dduw,
I fyny—fel Efe!

Y mae cân Ceiriog, a chân Shelley wedi eu cydblethu a chân yr ehedydd ei hun.

Nid ydym wedi crybwyll nemawr y waith hon am lyfrau na chylchgronau wrth eu henwau. Ond yr ydym wedi amcanu mynd at ffynhonellau ysbrydoliaeth ym mhob cyfnod. Aeth Chaucer ar bererindod ym mis Mai, ac erys peraroglau y mis mwyn yn y "Canterbury Tales." Ac y mae delw Mai ar gywyddau Dafydd ab Gwilym, ac emynau Pantycelyn :—

"Mi bellach goda i maes,
Ar foreu glas y wawr."

EIN GWLAD A'I PHOBL BORE.

Yr oedd yn gred gyffredin lai na deu can' mlynedd yn ol nad oedd dim defnyddiau hanes Prydain ar gael, ag y gellid dibynnu arnynt, cyn amser dyfodiad Iwl Caisar yma 55 mlynedd cyn Crist. Nid oes dim hanes ysgrifenedig cyn hynny, mae'n wir; ond y mae pethau eraill heblaw llyfrau fedrant awgrymu hanes. Y mae lluaws o wahanol bethau ag ydynt erbyn heddyw wedi eu troi i fod yn foddion i ddweyd stori bywyd bore dyn—megis y gweddillion a adawodd ar ei ol, megis yr arfau a'r gwahanol offerynau ddefnyddiai, y bwthynau a adeiladai, esgyrn y creaduriaid a arferai fwyta. Fe ddyweed y rhai hyn lawer iawn.

Oddiwrth y rhai hyn a phethau cyffelyb yr ydys yn casglu fod dynion yn byw ar lannau'r Dafwys *(Thames)* a mannau eraill ddau can' mil o flynyddau'n ol—mor bell yn ol fel nad yw gwyddonwyr ddim wedi anturio i fanylu.

Rhennir yr amser i gyfnodau meithion, y rhai ydynt wedi eu henwi oddiwrth natur yr arfau a'r offerynau oeddynt mewn arferiad yn ystod y cyfnodau hynny. Dyma'r enwau roddir iddynt—(1) Palæolithic; (2) Neolithic; (3) Bronze; (4) Haiarn. Ceisiwn esponio:—(1) Yr *Hen*-faen, neu'r *Old Stone Age;* (2) Y *Newydd*-faen, neu'r *Later Stone Age;* (3) Yr oes y daeth *Bronze*, metel cymysg o Bres a Chopor; (4) Oes yr Haiarn.

Yn yr oes gyntaf, yr oedd dyn yn mhell o fod wedi ei wareiddio. Nid oedd fawr uwch na'r anifail. Nid tebyg ei fod wedi dysgu gwreiddio'r tir, na phlannu un math ar lysiau. Nid oedd yn cadw na cheffyl na buwch, na chi na chath. Yr oedd yn byw ar lysiau gwylltion, a gwreiddiau, ac umhyw fath ar greaduriaid a allai gael gafael arnynt. Nid oedd ganddo na thy na thwlc eto. Yr oedd yn byw o dan gysgod coed neu ogof, lle gallai gael un. Ceid llawer o'i olion unwaith yn yr ogofau ar draeth Gŵyr *(Gower)*. Ei wisg oedd o groen yr anifail a laddai. Nid oedd wedi dechreu codi meini coffa am y meirw, nac i adeiladu un math ar fwthynau. Medrai dorri'r maen callestr *(flint)* yn ddeheuig iawn, fel y gallai eu defnyddio i lawer pwrpas. Ni fedrai eu caboli. Prin oedd trigolion Prydain yr amser hyn, a chartrefent yn bennaf yn ardaloedd y deheubarth.

(2) Yr oedd pobl Oes y Newydd-faen yn llawer mwy gwareiddiedig na'u blaenoriaid. Gwreiddient y tir, cadwent anifeiliaid, gwisgent ddillad, adeiladent fythynod, gwnelent lestri pridd, a chodent feini coffa hynod. Nid oeddent hyd yn hyn wedi darganfod y ffordd i wneud defnydd o'r meteloedd. Parhaent i ddefnyddio'r garreg neu asgwrn fel defnydd eu harfau a'u hofferynau eraill; ond medrent ffurfio a chaboli eu harfau maen yn brydferth iawn.

(3) Nid oedd yr un agendor priodol rhwng Oes y Newydd-faen ac Oes y *Bronze*—rhedent yn anghanfyddadwy y naill i'r llall. Yn araf iawn y dysgwyd toddi'r meteloedd, copr a thin, a'u cymysgu. Diangodd llawer oes cyn i'r arfau maen ordod roi lle i'r arfau *bronze*. Yr oedd yr anhawsderau i wasgar gwybodaeth y pryd hwnnw yn fawr iawn. Heblaw gwneud arfau ac offer tlws, yr oedd dyn Oes y *Bronze* wedi gwella'r gelfyddyd i wneud llestri pridd, a chladdai ei feirw mewn beddrodau cylchol.

(4) Yn mhen amser, dysgodd dyn y ffordd i doddi'r meini haiarn, ac fe basiodd Oes y *Bronze* yn raddol i Oes yr Haiarn. Dwg yr oes honno ni i adeg hanes ysgrifenedig. Pan ddaeth y Rhufeiniaid i Brydain,

cawsant fod y trigolion yn defnyddio offerynau o haiarn.

Yn awr, ceisiwn holi pwy oedd y bobl hyn a breswylient ym Mhrydain yn yr oesoedd bore hyn. Ni wyddis dim am ddyn yr oes gyntaf. Tybir fod dynion Oes y Newydd-faen yn perthyn yn bennaf i lwyth o Iberiaid—pobl o ddeheu-orllewin Ewrop, y rhai a ddygasant gyda hwynt y fath wybodaeth o gelf a chrefft ag oedd yn bodoli'r pryd hwnnw. Pa hyd y cawsant lonydd i aros yma, ni wyddis, ond fe'u gyrrwyd i'r gorllewin rywbryd gan lwyth gwahanol—pobl o dras Celtaidd, pobl tal, gyda gwallt goleu. Cwrddwn a'u disgynyddion a'u iaith heddyw mewn llawer man, yn yr Alban, yr Iwerddon, ac yn Ynys Manaw.

Daeth llwyth Celtaidd arall yma yn y bedwaredd ganrif cyn Crist, sef y Brythoniaid. Hwy oedd y rhai cyntaf i ddefnyddio haiarn yn y wlad hon.

Daeth y Rhufeiniaid i'r wlad hon 55 mlynedd cyn Crist, a chadwasant afael ynddi fwy neu lai hyd tua'r flwyddyn 410 o oed Crist. Yn fuan ar ol hyn, ar ol i'r Rhufeiniaid ymadael, daeth yma amryw lwythau — Sacsoniaid, Jutiaid, Angliaid. Gyda'r rhai hyn, a chydag ymweliadau y Daniaid a'r Gwyddelod, yr ydym wedi gadael tymor ansicr yr Oes Gyn-hanesiol, ac yn glanio ar dir sicrach hanes.

PRIODAS.

Yng Nghapelybryn, Medi 6, gan y Parch. L. Williams, a cher bron y cofrestrydd, Mr. D. Evans, Llanybyther, unwyd mewn glân briodas Mr. John Arthur Thomas, ail fab Mr. a Mrs. David Thomas, Castell House, Llanybyther, â Miss Sarah Jane Richards, merch ieuengaf y diweddar Mr. a Mrs. Dd. Richards, masnachdy Pengraig, Cwmsychbant, Llanwenog. Pob daioni i'r ddau.

MARWGOFION.

Awst 30ain, yn un flwydd oed, William John, mab bychan Mr. a Mrs. Howells, Dyffryngroes, ger Alltwalis. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas. Cofied y rhieni eiriau Iesu, "Eiddo y cyfryw rai yw Teyrnas Nefoedd."

Awst 30ain, yn 78 mlwydd oed, Eleanor Richards, Penlon, Crugmaen, Llanwenog, gweddw y diweddar William Richards, Park-y-rhos, gerllaw y lle uchod. Withi ei hun yr oedd yr ymadawedig yn byw, a phan yn myned i orffwys yr hwyr blaenorol yr oedd mewn iechyd da, ond cafwyd hi yn y boreu wedi marw. Er fod ei phlant, sef un mab a thair merch, yn byw mewn cartrefi o'r eiddynt eu hunain, eto y mae ei marwolaeth yn ergyd trwm iddynt,

gan iddo ddigwydd mor annisgwyliadwy. Gwelant ei heisiau yn fawr: nid oedd ei chartref yn mhell oddiwrth yr un ohonynt, ac ymwelai â hwy yn aml, ond mwyach y maent wedi cael eu hamddifadu o'r pleser a gawsent oddiwrth ei hymweliadau. Cydymdeimlwn â hwy yn eu hamddifadrwydd, a dymunwn ar i'r ferch sydd yn wael ei hiechyd er's amser maith, ac oblegid hynny yn wan i ddwyn profedigaeth mor chwerw, i gael nerth i'w chynnal ynddi. Claddwyd y Mercher canlynol ym mynwent Eglwys Llanwnen Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, Capelybryn, ac yn yr Eglwys gan y Parchn. J. H. Davies, ficer, a D. Evans, Capelygroes. Heblaw y plant, gadawodd amryw o wyrion mewn galar ar ei hol.

MEDI 14, yn dra ddisymmwth, M. Morwen Lilian, merch fechan ac unig blentyn Mr. John Evans a Mrs Evans, Pleasant View, Alltyblacca, ac wyres i Mr. Thomas Davies a Mrs. Davies, o'r un lle, yn flwydd a pum mis oed. Cymerwyd hi yn glaf y dydd nchod, a bu farw ym mhen ychydig oriau. Trwm yw yr ergyd a dwfn yw yr hiraeth oblegid colli eu hunig blentyn, a hynny mor gynar a sydyn. Claddwyd yng Nghapelybryn, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. Evans, Capelygroes; E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd, a D. Collwyn Morgan, Alltyblacca. Amlygwyd cydymdeimlad mawr a'r teulu gan y nifer luosog ddaeth ynghyd ddydd yr angladd, a chan y plethdorchau lawer, pa rai oeddynt dros ugain mewn nifer, a orchuddient y bedd.

"Ni ddaeth yr hardd flodeuyn gwyn,
A ga'dd mor sŷn ei symud,
Ond dangos inni pa mor hardd
Yw blodau gardd y gwynfyd."

MEDI 14, Anne, anwyl briod Daniel Davies, Ffalda Terrace, Ferndale, yn 26 oed. Merch ydoedd i William a'i ddiweddar briod, Mary Evans, Pantsod, ger Talgarreg, Ceredigion. Dechreuodd glafychu ym mis Mehefin diweddaf; ym mis Awst daeth adref i dy ei thad i newid awyr, gan fwriadu gwella yn fuan a mynd yn ol i'w chartref ei hun yn Ferndale. Ond, druan o honi, gwaelodd yn gyflym, ac ar y bore uchod ffarweliodd, gan adael ei phriod, tad, brodyr, chwioryddd, a llawer o berthynasau eraill mewn galar. Cydymdeimlir yn fawr â hwynt yn ei profedigaeth. Yr oedd yn fenyw ieuanc o ysprryd hawddgar iawn, ac o gymeriad prydferth, ac yn fawr ei pharch gan bawb o'i chydnabod. Claddwyd y dydd Iau canlynol, ym mynwent Bwlchyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins; F. H. Davies (A.), Brynrhiwgaled, a D. Jones (A.), Capel Iwan. "Cawn gwrddyd yn y nef"

DEIGRYN.

Y deigr-wlithyn gloew, del,
Gwel lanw'r galon drwyddo;
Anwylun dwysder gofid byw,
O ysig fron o'i chlwyfo;
Wyt febyn hiraeth mud, a siom,
Fe'th adwaen bawb o'i febyd;
Sancteiddiwyd di pan dorrodd 'storm
Dros ruddiau mwyn ein Delfryd!

Agori ddrws i lifiant serch,
Mynegi wiw dosturi;
Pan o lawenydd 'ddelwy'n syw,
Nid oes a fedd dy dlysni;
Wyt iraidd fam i enaid dwys,
A phwys y gofid ynnot;
A llawer tro y cefais fedd
Y Dwyfol Hedd—do, drw'ot!

Dihewyd. NANCE EVANS.

MANION AC HANESION.

TRYSORFA'R GYMDEITHAS.—Apeliwn yn daer at yr Eglwysi a'r tanysgrifwyr ag sydd heb ddanfon eu casgliadau a'u tanysgrifiadau am y flwyddyn i fewn i wneud hynny'n ddioedi. Gyrer hwy i'r Trysorydd, Mr. D. M. Jones, Y.H., Gwyon Castle, Llandyssul.

ALLTYBLACCA A CHAPELYBRYN.—Bu Ysgol Sul y blaenaf am bleserdaith i Aberystwyth, ac Ysgol Sul yr olaf i Aberteifi.

CRIBYN. — Y mae Miss Dinah Jones, Cwmmynach, wedi pasio'r Arholiad Cyntaf mewn chwarae'r Berdoneg. Llongyfarchwn hi ar ei llwyddiant, a hithau mor ifanc.

PANTYDEFAID A'R GRAIG, LLANDYSSUL.—Bu y ddwy Ysgol Sul uchod, ynghyd a chyfeillion, am bleserdaith i Ddinbych-y-Pysgod Aeth yr olaf dydd Llun, Awst 18, a'r blaenaf dydd Mercher, Medi 3. Cafwyd tywydd dymunol iawn a mwynhad llawn.

CWRTNEWYDD. — Llongyfarchwn yn y modd mwyaf gwresog y brawd J. James Evans, B.A., athraw yn Ysgol Sir Abergwaun, ar ei waith yn ennill y wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol am ddwyn allan lyfr Cymraeg cyfaddas i'w ddefnyddio gan y dosparthiadau uchaf yn yr Ysgolion Elfennol. Yr oedd y gwaith hwn yn gofyn gallu a llafur mawr, ac y mae yn llawenydd i ni yng Nghwrtnewydd fod un a godwyd yn y lle, ac sydd mor barchus yn ein plith, wedi enill yr anrhydedd hwn.——Hefyd, llongyfarchwn yn yr un modd frawd ieuanc arall o'r lle, sef Mr. Daniel Leonard Pugh, B.Sc., Bryngranod, ar ei waith yn cael ei benodi i'r swydd o athraw o dan y Morlys. Y mae eisoes wedi dechreu ar ei waith yn Devonport. Dymunwn llwyddiant iddo.

LLWYDDIANT.—Y mae yn llawen gennym nodi llwyddiant Miss Catherine Mary Jones, Bryn Aeron, Ciliau Aeron, ar ei gwaith yn ennill yr A.L C.M. mewn cerddoriaeth. Y mae wedi bod yn ffyddlon am flynyddau gyda'r organ yng Nghapel Ciliau Aeron. —— Llongyfarchwn hefyd Mr. Emrys Hughes, mab Mr. Evan Hughes, Dihewyd, ar ei waith yn pasio ei arholiad mor anrhydeddus. Aeth i'r ysgol rhyw 18 mis yn ol, ac ymroddodd i'r gwaith mor llwyr fel y llwyddodd i basio yr *Oxford Local* (*Senior*) *Examination*, a phasiodd yn ddigon uchel ei safon fel ag i gael y *London Matriculation*. Cychwyniad rhagorol ac addawol, a sicr ei fod yn arwydd da iawn o ddyfodol disglaer.

YN YMOFYNYDD 1915, tudalen 41, dan y penawd "Dameg allan o'r Apocrypha," rhoddwyd difyniad a dybid fod yn ddesgrifiad o'r Rhyfel 1914—18 Gweler Ail Lyfr Esdras xi. 29—45; xii. 1—13. Darllener yr adnodau eto, a chofier mai *Llew* yw arwyddlun Prydain hyd heddyw, a'r *Eryr* yw arwyddlun Germani. Ni ellir llai na gweld yma ddarlun tarawiadol iawn yn hanes diweddar y ddwy wlad.

MAE enw Joshua Thomas, awdur Hanes y Bedyddwyr, yn hyspys i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Yr oedd yn ewythr i Dafis Castell Hywel. Adroddir iddo bregethu ar adeg urddiad Timothy, ei fab, ar 1 Timotheus vi. 20, yn Saesneg: "O Timothy, keep that which is committed to thy trust" Barna Aspland fod dewisiad y testun "with questionable taste." Paham ?

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, ... LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

Banking Facilities

The Midland Bank, the greatest organisation of its kind in the world, offers a complete banking service through 2,200 branches in Great Britain and Ireland, and the additional advantages of perfect security and finest rates.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; The London City and Midland Executor and Trustee Co. Ltd.